

# DOG

## Dysgu Oedolion yn y Gymuned
**Merthyr Tudful**





ennill sgiliau newydd

cwrdd â phobl











cael eich ysbrydoli







cofrestrwch nawr



Communities first Cymunedau yn gyntaf

MERTHYR TYDFIL County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL

UHOVI

The College Merthyr Tydfil
Y Coleg Merthyr Tudful

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pontydd i'Waith
Bridges into Work

wea cymru


# Eich barn chi am ein cyrsiau a’n darpariaeth

Bob blwyddyn mae MORI yn holi myfyrwyr am eu barn. Mae canlyniadau 2015 yn dangos fod 82% o’r myfyrwyr a gwblhaodd y gwerthusiad yn meddwl fod ein darpariaeth yn dda iawn. Mae hyn yn uwch na marc safon y sector sy’n 65%.

Mae’r arolwg hefyd yn dangos fod 85% yn dweud ein bod yn ymwneud yn dda iawn gyda’n myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel parch gan y staff, gwrando ar fyfyrwyr a gweithredu ar hynny. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y sector sy’n 62%. Mae 11% pellach yn dweud fod yr agwedd hon yn “dda.”

I wybod mwy ynglŷn â sut i ddweud eich dweud ffoniwch Addysg Oedolion ar 01685 724910.

**Tabl 1**
**Canlyniadau Arolwg Llais y Dysgwr 2015 gan gwmni MORI ar ran Llywodraeth Cymru**




Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2015. Gwaith maes wedi ei wneud rhwng Rhagfyr y 1af 2014 a Chwefror yr 20fed 2015.
SailC8 – 63; sail C9 – 62.
Rhag gorgymhlethu pethau ni chaiff ffigyrau sy’n llai na 2% eu dangos ar y siart.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Mae oedolion Merthyr Tudful yn llwyddo'n rhyfeddol yn eu haddysg . . .
## Ac mae hynny'n swyddogol!

Yn ddiweddar bu i Estyn wneud arolwg o ddarpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y sir.

Fe ddaethon nhw i'r casgliad fod oedolion yn llwyddo'n rhyfeddol yn eu haddysg yn y sir. Yn wir, roedd cyfraddau llwyddiant oedolion ym Merthyr Tudful gyda'r gorau yng Nghymru.

Mae dilyn cyrsiau o'r fath yn fudd i'r gymuned gyfan. Mae'r cyrsiau yn annog oedolion i wella'u sgiliau sydd yn ei dro yn help i wella'r economi leol a hybu cyfrifoldeb cymdeithasol.

Felly, beth bynnag eich rheswm dros eisiau dysgu ni fu adeg well erioed i gofrestru ar gwrs gyda Phartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful.

# Maes Llafur Ar y Cyd Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful 2015-2016

Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Merthyr Tudful

Dal ati i ddysgu

Blas ar rywbeth newydd

Ailddarganfod hen ddiddordeb

Cofrestrwch ar gyfer y cwrs yna nawr

Ni fu erioed adeg well i ymuno â chwrs addysg oedolion ym Merthyr Tudful. Mae ein dysgwyr wastad wedi gwerthfawrogi'n gwasanaeth ac wedi canmol amrywiaeth ein cyrsiau, y dysgu rhagorol a'n staff clên.

**I wybod mwy am brisiau'r cyrsiau cysylltwch â'r mudiadau sydd ar gefn y llyfryn**

## Dim cwrs yn mynd â'ch bryd?

Os allwch chi gael grŵp o **10** person at ei gilydd fyddai'n hoffi astudio'r un math o beth hwyrach y gallem ni drefnu cwrs i chi! **Peidiwch â bod ofn gofyn**. Ffoniwch y tîm ar **01685 724910** ac fe wnawn ni ein gorau i helpu.

## Gwahanol ffyrdd o gofrestru

1 Dewiswch eich cwrs

Mae yna lawer i ddewis o'u plith yn y llyfryn hwn. Os hoffech chi fwy o wybodaeth ynghylch pa un sydd fwyaf addas i chi, ewch i'n gwefan neu ffoniwch un o'n canolfannau.

2 Cysylltwch â ni i gofrestru

This brochure is available in Welsh upon request

# Sgiliau Cyfrifiadurol

Sesiynau blasu / galw-mewn anffurfiol:

Eich tro cyntaf o flaen cyfrifiadur? Ddim yn si□r sut mae cychwyn arni? Dysgwch yr hanfodion o ran defnyddio allweddell, llygoden a chyfrifiadur er mwyn magu hyder i ddarganfod holl fanteision y we.

- Cyngor a chefnogaeth i gysylltu â'r we
- Chwilio am waith – help i ddefnyddio Universal Job Match
- Cefnogaeth i lunio CVs ac i ebostio CVs a cheisiadau swydd
- Help i ddefnyddio'r we i ddelio efo Credyd Cyffredinol, budd-dal tai a lwfans ceisio gwaith
- Skype – cadw mewn cyswllt gyda teulu a ffrindiau
- Siopa ar-lein – arbed arian – gwefannau cymharu prisiau
- Apiau arbed arian
- Prynu a gwerthu ar Ebay
- Apiau addysgiadol ar lechen/ipad/ipod/iffôn a ffonau clyfar eraill
- Helpu'ch plant efo'u gwaith cartref
- Gosod a defnyddio'ch llechen (tablet)
- Help i gael lluniau'n ôl wedi i chi eu dileu nhw ar ddamwain
- Diogelwch a phreifatrwydd ar y we – helpwch eich plant, a chi'ch hun, i fod yn ddiogel ar lein.
- Creu cyflwyniadau PowerPoint syml

Cysylltwch ag: Addysg Oedolion
01685 724910

- Dosbarthiadau Cyfrifiadurol – Lefel Mynediad i Lefel 1,2 a 3
- Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewrop

Cyswllt: Addysg Oedolion
01685 724910

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

Cyswllt: Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r 3G, Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y Gogledd)
01685 350888

Cyswllt: Grŵp Sefydliad Gellideg, Cymunedau'n Gyntaf (Y Clwstwr Canolog)
01685 383929

Cyswllt: Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y De)
01443 690178

- Adnabod eich Cyfrifiadur – Lefel 1

Cyswllt: Canolfan Gyngor a Gwybodaeth Mind Merthyr a'r Fro
01685 353944 / 353991

## Iechyd, Gofal a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

- Cwnsela
- Seicoleg
- Chwarae a Datblygiad Plentyn – Lefel 1

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

- Sgiliau Gwirfoddoli Craidd – Lefel 2
- Deall Iechyd a Diogelwch Sylfaenol – Lefel 1
- Iechyd a Lles – Lefel 1
- Paratoi i Ofalu
- Cyflwyniad i Reoli Straen – Lefel 2

Cyswllt: Canolfan Gyngor a Gwybodaeth Mind Merthyr a'r Fro
01685 353944 / 353991

## Busnes a Gweinyddu

- Gweinyddu Busnes Lefel 1 a 2

Cyswllt: Addysg Oedolion
01685 724910

- Mathemateg
- Saesneg
- Tystysgrif Addysg a Hyfforddiant
- Y Sector Dysgu
- Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

## Sylfeini Byd Gwaith

- Creu Stori Ddigidol
- Llythrennedd a Rhifedd

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

- Clybiau Sgiliau a Medrau Bywyd a Gwaith Hanfodol

Cyswllt: Addysg Oedolion
01685 724910

- Sgiliau Gwaith
- Clybiau Gwaith

Cyswllt: Clwstwr Canolog Cymunedau'n Gyntaf
01685 383929

## Sgiliau Byw yn Annibynnol

- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Cadw Tŷ
  Lefel Mynediad 1,2 a 3
- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Gweithgareddau Hamdden. Lefel Mynediad 1, 2 a 3
- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Bywyd Cymunedol
  Lefel Mynediad 1,2 a 3
- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Gofal Personol
  Lefel Mynediad 1,2 a 3
- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Datblygiad Personol
  Lefel Mynediad 1,2 a 3
- Sgiliau Byw yn Annibynnol – Hawliau a Chyfrifoldebau. Lefel Mynediad 1,2 a 3

Cyswllt: Mike Palmer, Rheolwr Canolfan Ddydd Anableddau Dysgu
01685 727421
Rob Derrick, Rheolwr Canolfan Ddydd Anableddau Dysgu
01685 722340

- Bwyta'n Iach a Sgiliau Coginio Ymarferol – Lefel 1

Cyswllt: Canolfan Gyngor a Gwybodaeth Mind Merthyr a'r Fro
01685 353944 / 353991

- Llwybrau at Annibyniaeth – Lefel Mynediad 2 a 3
- Sgiliau Gwaith – Cyn-fynediad – Lefel 1
- Datblygu Sgiliau – Lefel Mynediad 1, 2 a 3
- Camau Llwyddiant - Lefel Mynediad 1, 2 a 3
- Cyfleoedd Newydd - Lefel Mynediad 1, 2 a 3
- Sgiliau Bywyd - Lefel Mynediad 1 a 2

Cyswllt: Coleg Merthyr Tudful
01685 726000

## Y Cyfryngau, Celfyddyd a Chrefft

- Celf – Lefel 1, 2 a 3
- Celf/Dylunio: Astudiaethau Celfyddyd Gain 2Dd – Lefel 1
- Ffotograffiaeth
- Cwiltio Clytwaith
- Celfyddyd siwgr

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

## Adwerthu a Mentrau Masnachol

- Hylendid bwyd
- Cymorth Cyntaf Pediatrig
- Materion Ariannol (Help efo Arian)
- Bwyd a Maeth
- Codi a Chario
- Cymorth Cyntaf

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

- Gwasanaeth Cwsmer mewn Siop – Lefel 1

Cyswllt: Canolfan Gyngor a Gwybodaeth Mind Merthyr a'r Fro
01685 353944 / 353991

- Cymorth Cyntaf
- Hylendid Bwyd Lefel 1 a 2
- Codi a Chario
- Iechyd a Diogelwch

Cyswllt: Grŵp Sefydliad Gellideg
Clwstwr Canolog Cymunedau’n Gyntaf (Canol y Cwm)
01685 383929

- Cymorth Cyntaf
- Lefel 1 a 2 Hylendid Bwyd
- Codi a Chario
- Iechyd a Diogelwch

Cyswllt: Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Cymunedau’n Gyntaf Clwstwr y De (Gwaelod y Cwm)
01443 690178

## Ieithoedd a Diwylliant

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael ar lefelau gwahanol (Mynediad, Sylfaen, Canolradd, Uwch, Hyfedredd) mewn nifer o leoliadau ar draws y sir. Mae’r dosbarthiadau’n cwrdd unwaith neu ddwywaith yr wythnos ac maen nhw ar gael ar adegau gwahanol yn ystod y dydd. Os ydych chi’n siarad Cymraeg yn barod ond eisiau gwell, mae dosbarth i chi hefyd.

Cyswllt: Cymraeg i Oedolion
01443 483600
www.southwales.ac.uk/learnwelsh

- Sbaeneg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Dosbarthiadau Darllen Gwefusau
- Iaith Arwyddo i Ddechreuwyr

Cyswllt: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru
01495 369869

## Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)

- Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill – Lefel Mynediad 1 a 2
- Prawf Saesneg Rhagarweiniol – Lefel Mynediad 3
- Tystysgrif Saesneg Cyntaf Caergrawnt - Lefel 1

Cyswllt: Addysg Oedolion
01685 724910

Mae Coleg Merthyr Tudful yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a chyrsiau ynglŷn a System Brofi Ryngwladol yr Iaith Saesneg (IELTS). Mae'r rhain yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddechrau dysgu Saesneg neu i loywi eu sgiliau iaith. Mae llawer o'n myfyrwyr yn mynd rhagddyn nhw i gyrsiau rhan-amser neu lawn amser yn y coleg gan astudio pynciau fel busnes, peirianneg, gofal plant, twristiaeth, cyfrifiaduron a chwaraeon. Mae rhai hyd yn oed yn mynd yn eu blaenau i brifysgolion i astudio pynciau mor amrywiol â pheirianneg sifil, cymdeithaseg a phensaernïaeth.

- Fel aelodau o'r farchnad fyd-eang mae ein myfyrwyr yn cael eu cyflogi ar draws y byd. Fodd bynnag, mae rhai yn dewis ailfuddsoddi eu sgiliau newydd ym Merthyr Tudful gan agor eu busnesau eu hunain yn yr ardal.
- Mae'r cyrsiau canlynol ar gael yn ystod 2014/2015:
    - Cwrs ESOL llawn amser Lefel 1 a 2, Mynediad 3 a Mynediad 2
    - Cwrs IELTS rhan amser

Cyswllt: Cymorth Myfyrwyr - Rhadffon 0800 1693825 neu ewch i: www.merthyr.ac.uk/content/english-speakers-other-languages-esol

## Treftadaeth a Garddio

- Garddwriaeth a Threftadaeth – BTEC Prifysgol Lefel 4
- Astudiaethau'r Tir – BTEC Mynediad Lefel 3
- Lluosi planhigion – Mynediad Lefel 1,2,3 hyd at Lefel 3
- Hadu - Mynediad Lefel 1,2,3 hyd at Lefel 3

- Toriadau o blanhigion - Mynediad Lefel 1,2,3 hyd at Lefel 3
- Garddio Ymarferol / Rhandiroedd - Mynediad Lefel 1,2,3 hyd at Lefel 3
- Hydroffoneg - Mynediad Lefel 1,2,3 hyd at Lefel 3

Cyswllt: Cydlynydd Treftadaeth a Gwirfoddolwyr, 01685 725365

## Cymunedau'n Gyntaf

Cymunedau'n Gyntaf yw cynllun gwrth dlodi Llywodraeth Cymru ac mae'n cefnogi cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r Cynllun yn ceisio cael budd i drigolion Merthyr Tudful ac yn canolbwyntio ar dair thema –

- Iechyd
- Ffyniant
- Addysg

Ym Merthyr Tudful mae Cymunedau'n Gyntaf wedi ei drefnu'n ardaloedd. Mae tri mudiad o'r sector gwirfoddol yn gyfrifol am roi'r cynllun ar waith yn yr ardaloedd hyn:

- Clwstwr y Gogledd – Ymddiriedolaeth Ddatbygu'r 3G sy'n gweithio yn yr Adeilad Cymunedol, 15 Chesnut Way, Y Gurnos, CF47 9SB
- Y Clwstwr Canolog - Grŵp Sefydliad Gellideg sy'n gweithio yn Nhŷ'r Wins Fawr, Ystâd Gellideg CF48 1HA.
- Clwstwr y De – Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, Tram Road, y tu ôl i Wesley Place, Ynyswen, CF48 4RS.

Mae'r clystyrau'n ceisio hybu sgiliau digidol, yn trefnu clybiau gwaith, yn rhoi cyfle i bobl ennill cymwysterau galwedigaethol a gwella'u sgiliau rhifedd a llythrennedd, yn trefnu digwyddiadau ymarfer corff, clybiau ar ôl ysgol, gwaith gwirfoddol ac yn rhoi help gyda materion yn ymwneud â iechyd.

I wybod mwy am y cyfleoedd eraill sydd ar gael cysylltwch â'r Swyddog Dysgu yn y mudiad sydd agosaf atoch chi.

Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r 3G (Clwstwr y Gogledd) - 01685 350888

Grŵp Sefydliad Gellideg (Y Clwstwr Canolog) - 01685 383929

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (Clwstwr y De) - 01443 690178

Communities *first* Cymunedau *yn gyntaf*

## Cynlluniau Teuluol

### Oes gennych chi blant yn yr ysgol gynradd?

Ddim yn siŵr sut maen nhw'n dysgu Cymraeg, Saesneg a Mathemateg?

Mae ein cynlluniau teuluol yn rhoi gwybodaeth i rieni, gofalwr a neiniau a theidiau ynghylch sut mae plant yn cael eu dysgu yn eu gwersi iaith a mathemateg. Fe allwn ni roi syniadau ymarferol fydd yn fodd i chi helpu eich plant gyda'u dysgu gartref.

## Clybiau Sgiliau

### Glywsoch chi am y Clybiau Sgiliau?

Fe allan nhw eich helpu chi gyda . . .

- Gwella'ch sgiliau Saesneg a Mathemateg
- Ysgrifennu llythyrau a llenwi ffurflenni
- Cyllidebu
- Helpu'ch plant gyda'u gwaith cartref

## Pam Clybiau Sgiliau?

Achos:

- Fe allwch chi ddysgu sgiliau newydd neu loywi hen rai
- Fe allwch chi weithio wrth eich pwysau mewn awyrgylch braf, cyfeillgar,
- Fe allwch chi ymuno ar unrhyw adeg mewn lleoliadau drwy'r sir

**Dydd Llun 9yb – 12yp** - Canolfan Blant Gyfunol Cwm Golau, Ffordd Dyffryn, Pentrebach, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Llun 1yp – 4yp** - Soar, Pontmorlais, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Mawrth 9yb – 12yp** – Capel y Drindod, Tramroad, y tu ôl i Wesley Place, Ynyswen, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Mercher 9yb – 12yh** - Ysgol Gynradd y Goetre, Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Mercher 1yp – 4yp** - Grŵp Sefydliad Gellideg, Fflat 2, Tŷ'r Wins Fawr, Ffordd Lansbury, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Mercher 1yp – 4yp** - TTEC, Treharris, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Iau 9yb – 12yp** – Canolfan Ddysgu'r Fro, 17-20 Pen y Dre, Y Gurnos, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.
**Dydd Iau 1yp – 4yp** – Canolfan Ddysgu'r Fro, 17-20 Pen y Dre, Y Gurnos, Merthyr Tudful, tair awr yr wythnos.

I wybod mwy am y Clybiau Sgiliau a'r Cynlluniau Teulu ffoniwch Jayne Powney ar 01685 727385

## Pontydd i Waith 2

Mae Pontydd i Waith 2 yn Gynllun wedi ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn gweithio gyda phobl leol ddi-waith sy'n 25 oed a h□n. Diben y cynllun yw helpu pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ers amser i gael swydd eto drwy roi arweiniad a hyfforddiant iddyn nhw. Mae angen cwrdd â meini prawf penodol er mwyn manteisio ar y cynllun a bydd y rhain yn cael eu gwirio cyn i chi ddechrau ar y cynllun.

### Clybiau Gwaith

Mae clybiau gwaith yn rhoi help gyda'r canlynol:

- Defnyddio cyfleusterau chwlio am swydd
- Cwblhau ffurflenni cais
- Llunio CVs
- Sgiliau siarad ar y ffôn
- Technegau cyfweld
- Defnyddio Universal Job Match
- Mynediad i'r we i chwilio am swydd
- Ffôn i holi am waith

Cysylltwch â Chanolfan Ddysgu'r Fro i wybod mwy am y sesi-ynau yn eich ardal chi.

C: I wybod mwy ffoniwch 01685 727099

### Cyrsiau cyn cael swydd

Dyma hyfforddiant amrywiol gan Pontydd i Waith fydd yn gwa-rantu cyfweliad i chi ar y diwedd gyda chyflogwr. Bydd y cwrs yn un eang ac yn mynd i'r afael â'r pethau hynny mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw ar yr adeg benodol honno mewn amser. Byddwch hefyd yn ennill cymwysterau achrededig fel rhan o'r cwrs. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwasanaeth Cwsmer
- Canolfannau Galw
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Adwerthu

Mae'r cyrsiau wedi eu dylunio a'u datblygu law yn llaw gyda chyflogwyr a byddant yn amrywio wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Os hoffech chi wybod mwy am y cyrsiau sydd ar gael ffoniwch Canolfan Ddysgu'r Fro.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu:**

Cyrsiau amrywiol eu hyd yn:

Canolfan Ddysgu'r Fro, Y Gurnos – 01685 727099
Treharris – 01685 727099

Ffoniwch i siarad efo rhywun ac i ddysgu mwy am y cyrsiau sydd ar gael.

**Adeiladu**

Diddordeb mewn gwaith plymio, teilio, plastro, gwaith brics, gwaith coed, peintio ac addurno neu godi waliau sych? Rhowch ganiad i ni.

Mae'r cynllun Pontydd i Waith 2 yn fodd i chi roi cynnig ar grefftau gwahanol a gweithio tuag at gymhwyster Lefel 2 Datblygu Sgiliau Gwaith (maes adeiladu) gyda Rhwydwaith y Coleg Agored.

At hyn, os oes gennych chi ddiddordeb ennill Cerdyn CSCS fe allwn ni helpu gyda hynny hefyd.

Rhowch ganiad i Ganolfan Ddysgu'r Fro i wybod mwy am y cyrsiau neu drefnu i gwrdd ag un o'n tiwtoriaid clên fydd yn ddigon parod i'ch rhoi chi ar ben ffordd.

C: I wybod mwy ffoniwch 01685 727099

**Profiad Gwaith neu Waith Gwirfoddol**

Os oes arnoch chi awydd ennill ychydig o brofiad er mwyn gwella'ch CV cysylltwch â ni. Bydd gan ein Swyddog Gwaith ddigonedd o gyfleoedd ar eich cyfer ac yn fwy na bodlon eich helpu i ddewis rhywbeth sy'n cyfateb i'ch diddordebau.

Ffoniwch Kevin Davies ar 01685 727099 i drefnu apwyntiad neu i wybod mwy am y dewisiadau posib sydd ar gael i chi. Bydd Kevin yn gweithio gyda mudiadau eraill i edrych am leoliadau i chi.

## Canolfan Ddysgu'r Fro

### Clybiau Gwaith a Sgiliau Gwaith

Mae clybiau gwaith yn cynnig y cymorth canlynol:

- Defnyddio cyfleusterau chwlio am swydd
- Cwblhau ffurflenni cais
- Llunio CVs
- Sgiliau siarad ar y ffôn
- Technegau cyfweld
- Defnyddio Universal Job Match
- Y we i chwilio am swydd
- Ffôn i holi am waith

Cysylltwch â Chanolfan Ddysgu'r Fro i wybod mwy am y sesiynau yn eich ardal chi. 01685 727099

### Cyrsiau cyn cael swydd

Dyma hyfforddiant amrywiol gan Pontydd i Waith fydd yn gwarantu cyfweliad i chi ar y diwedd gyda chyflogwr. Bydd y cwrs yn un eang ac yn mynd i'r afael â'r pethau hynny mae cyflogwyr yn edrych amdanyn nhw ar yr adeg benodol honno mewn amser. Byddwch hefyd yn derbyn cymwysterau achrededig fel rhan o'r cwrs. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwasanaeth Cwsmer
- Canolfannau Galw
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Adwerthu

Mae'r cyrsiau wedi eu dylunio a'u datblygu law yn llaw gyda chyflogwyr a byddant yn amrywio wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Os hoffech chi wybod mwy am y cyrsiau sydd ar gael ffoniwch Canolfan Ddysgu'r Fro.

### Profiad Gwaith neu Wirfoddoli

Os oes arnoch chi awydd ennill ychydig o brofiad er mwyn gwella'ch CV cysylltwch â ni ar 01685 727 099

### Dysgu a'r Awyr Agored

Cymwysterau Agored Cymru yn y meysydd canlynol

- Ymwybyddiaeth Cefn Gwlad
- Gweithgareddau Corfforol
- Mordwyo

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y cyrsiau rhowch ganiad i Martyn ar 01685 727099

## Sgiliau Gwaith Oedolion

Caiff y cynllun Sgiliau Gwaith Oedolion ei redeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Y diben yw helpu pobl mewn gwaith i ddod yn fwy medrus ac i ennill mwy o gymwysterau a hynny'n rhad ac am ddim. Bydd hyn yn ei dro yn helpu gweithwyr i gadw swyddi, ac yn wir, i ennill mwy o gyflog.

**Ar gyfer pwy?**

Mae'r cynllun yn agored i holl drigolion Merthyr Tudful sydd o oedran gwaith ac:

- Yn gweithio 16 awr neu fwy
- Yn 16 oed neu hŷn
- Sydd ddim mewn addysg llawn amser

**Beth sydd ar gael?**

- Help i weithwyr sydd eisiau gwella'u rhagolygon gyrfa
- Hyfforddiant amrywiol, gan gynnwys sgiliau sylfaenol – rhifedd a llythrennedd hyd at lefel TGAU a chyrsiau Cymraeg a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n arwain at gymwysterau ffurfiol fel Agored Cymru.
- Cynllun cefnogi i helpu myfyrwyr i lwyddo ac i ennill cymwysterau
- Does dim modd defnyddio cynllun Sgiliau Gwaith Oedolion i ddarparu hyfforddiant sy'n ofyniad statudol o waith rhywun.

I wybod mwy am y prosiect, cysylltwch â Chanolfan Ddysgu'r Fro ar 01685 727099

## Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru

Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn cynnig cyrsiau hyblyg ar gyfrifiadur drwy gyfrwng Learn Direct. Fel hyn fe all dysgwyr ddewis pryd, ble a sut maen nhw'n dysgu. Mae'r cyrsiau yn rhai ar lein ac yn amrywio o rai lefel mynediad i rai lefel uwch. Mae hi hyd yn oed yn bosib eu rhannu nhw'n ddarnau bychain fel bod modd i fyfyrwyr fewngofnodi a dysgu mewn ffordd sy'n gweddu i'w hamgylchiadau.

Mae rhan fwyaf y cyrsiau AM DDIM. Felly p'un ai a oes angen i chi wella'ch sgiliau Saesneg, Mathemateg neu Dechnoleg Gwybodaeth neu os hoffech chi ennill sgiliau gwaith ffoniwch Cymdeithas Addysg y Gweithwyr ar 01495 369869

## Cynllun y Rhwydwaith Iechyd Cymunedol

Mae'r Rhwydwaith Iechyd Cymunedol yn cynnal amryw o ddigwyddiadau am ddim yng Nghlwstwr Canolog Cymunedau'n Gyntaf. Fel rhan o'n cynllun am ddim rydym ni'n gweithio'n agos gyda phobl ar lawr gwlad i fynd i'r afael â materion iechyd allweddol gan gynnwys bwyd a maeth, gweithgareddau corfforol a iechyd a lles. Rydym ni'n cynnig digwyddiadau monitro pwysau, dosbarthiadau coginio ar gyllideb a gweithgareddau corfforol. I wybod mwy ffoniwch y Rhwydwaith Iechyd Cymunedol ar 01685 383929

### Mind Merthyr a'r Cymoedd

Mae Mind Merthyr a'r Cymoedd yn cynnig amryw o gyrsiau hunan-reolaeth a Therapi Ymddygiad Gwybyddol. Mae'r rhain ar gael i bobl siroedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf sydd ag anghenion iechyd meddwl neu les emosiynol.

I wybod mwy ffoniwch ein Canolfan Gyngor a Gwybodaeth ar (01685) 353944

## Pontydd i Gyflogaeth

Mae Pontydd i Gyflogaeth yn gynllun wedi ei ariannu gan Gymunedau'n Gyntaf ac yn cael ei weithredu ar y cyd gan Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r 3G a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae ein tîm yn arbenigwyr ar weithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau o ran addysg, gwaith neu hyfforddiant. Rydym ni'n credu fod gan bob person ifanc y gallu i ddysgu, i lwyddo a chyflawni. Rydym ni hefyd yn credu y bydd pobl ifanc, o'u hannog a'u cefnogi yn y ffordd iawn, yn symud ymlaen i fyd gwaith, addysg bellach a hyfforddiant ac yn datblygu'n oedolion annibynnol.

### Sut ydym ni'n cefnogi pobl ifanc?

Mae'r cynllun yn ceisio gweithio gyda'r bobl ifanc anoddaf i'w cyrraedd drwy gynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth a hyfforddiant galwedigaethol. Mae'r cynllun yn targedu pobl sy'n iau ac yn hŷn nac 16 mlwydd oed.

### Gweithio gyda'r grŵp 16-19 oed

Mae'r cynllun Pontydd i Gyflogaeth yn canolbwyntio ar bobl 16-19 oed sydd eisoes wedi colli cyswllt â naill a'r byd gwaith neu ag addysg a hyfforddiant.

**Cydweithio**
I gynnig cymaint o gyfleoedd â phosib i bobl ifanc mae'r cynllun Pontydd i Gyflogaeth yn cydweithio â nifer o fudiadau:
Ymysg y rhain mae:

- Partneriaid Cyfeiriol – sy'n cyfeirio pobl ifanc at y cyfleoedd sy'n rhan o'r cynllun Symud i Fyd Gwaith
- Partneriaid Darparu – sy'n helpu Pontydd i Gyflogaeth ddarparu'r gwasanaethau i bobl ifanc.

**Paratoi at fywyd gwaith**
Fel rhan o'r cynllun Pontydd i Gyflogaeth mae pecyn cymorth ar gael sydd wedi ei deilwra'n arbennig i gwrdd ag anghenion pob unigolyn. Rydym ni'n trefnu cymwysterau a chyrsiau galwedigaethol gyda hyn yn union mewn golwg.

**Dyma rai o brif nodweddion y cynllun:**

- Datblygiad personol – cynyddu hunan-hyder a hunan-ddelwedd pobl ifanc a'u gallu i weithio fel aelod o dîm.
- Hyfforddiant cyn cael swydd – yn helpu pobl ifanc i ennill tystysgrifau Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario a Chymorth Cyntaf. Help gyda pharatoi ar gyfer cyfweliad a sgiliau cyfweliad.
- Cymwysterau – Ennill cymwysterau Edexcel BTEC Sgiliau Gwaith, Dysgu Sylfaenol, Sgiliau Sylfaenol y City and Guilds a chymwysterau ASDAN CoPE.
- Paratoi ar gyfer byd gwaith – helpu pobl ifanc i chwilio am waith, cwblhau ceisiadau swydd a llunio CVs.
- Lleoliadau gwaith – wedi eu trefnu i weddu orau i sgiliau a diddordebau pobl ifanc. Pan mae'r bobl ifanc ar leoliad gwaith fe gawn nhw gefnogaeth reolaidd i'w helpu i lwyddo ac i ganfod annibyniaeth fel oedolion.
- Caiff lwfans wythnosol ei dalu i'r myfyrwyr ac fe gawn nhw eu costau teithio yn ôl hefyd.

Ar hyn o bryd mae gennym ni lawer o gyrsiau sy'n canolbwyntio ar sgiliau penodol fel serameg, moduron, gwaith amgylcheddol, trin gwallt, dysgu awyr agored ac adeiladu. Mae'r cynllun yn un hyblyg ac mae'r gweithgareddau'n amrywio.


Cyswllt:

Pontydd i Gyflogaeth, 17-20 Pen y Dre, Y Gurnos, Merthyr Tudful, Morgannwg Ganol, CF45 9DY

Ffôn: 01685 727095
Ebost: socialregeneration@merthyr.gov.uk

transitioninto employment

# Dilyn Llwybr Llwyddiant . . .




Mae UHOVI yn rhoi cyfle i oedolion o bob oed astudio cyrsiau prifysgol yn eu hardaloedd eu hunain. Fe allwch chi wneud cwrs fesul rhan mewn canolfan gymunedol neu wella'ch sgiliau gyda astudiaethau'n seiliedig ar eich gwaith. Fe allwch chi hefyd astudio cymwysterau prifysgol fel Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch, Tystysgrifau Addysg Uwch a Thystysgrifau Sylfaenol yng Ngholeg Merthyr Tudful. Ewch i'n gwefan i weld beth sydd ar gael neu ffoniwch i archebu copi o'n llyfryn diweddaraf.

**Cyrsiau prifysgol ar garreg y drws**

**0800 1223 220**
**www.uhovi.ac.uk**

UHOVI

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Part of the University of South Wales
Rhan o Brifysgol De Cymru

# Cyfleoedd Gwirfoddoli Ym Mharc Cyfarthfa



## Hoffech chi gymryd rhan yn y gwaith o gynnal Parc Cyfarthfa a gwella'ch sgiliau ar yr un pryd?

### Cyfle i wirfoddol yn y parc ar gynllun o fri

I wybod mwy cysylltwch â:

**Leanne Williams 01685 725365**
**leanne.williams@merthyr .gov.uk**

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cygnor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

heritage
treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

# Mind Merthyr a'r Cymoedd

## Prosbectws Hyfforddi

## "Gwella drwy ddysgu"

Mae gennym ni hanes hir ac anrhydeddus o ddarparu gwasanaethau lleol i bobl leol ac yn falch eithriadol o allu cynnig gwasanaethau o ansawdd ar lawr gwlad. Rydym ni'n gweithio gyda channoedd o bobl bob blwyddyn a chydag llawer o fudiadau amrywiol er mwyn newid pethau er gwell a chael y canlyniadau gorau i bawb sy'n defnyddio'n gwasanaethau. Rydym ni'n darparu gwasanaethau hyblyg a chyfleus sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac ar farn y bobl hynny sy'n eu defnyddio.

## Pwy ydym ni?

CROESO I FERTHYR A'R CYMOEDD
Ein hamcan fel mudiad ydy ysbrydoli pobl CWM TAF
i sylweddoli eu potensial:
i fyw mewn gobaith am ddyfodol gwell
i roi cyfleoedd iddyn nhw ddysgu,
i feddiannu eu bywyd, i wella
ac i aros yn iach.

## Pam ni?

Oherwydd rydym ni'n gweithio i Farc Ansawdd Mind, yn medru cydweithio â mudiadau eraill ac yn ymfalchïo yn ein gwerthoedd.

mind
for better mental health
o blaid gwell iechyd meddwl
Merthyr and the Valleys

# Cyrsiau wedi eu hachredu gan Agored

Mae Mind Merthyr a'r Cymoedd yn cynnig amrywiaeth fawr o gyrsiau i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl neu les emosiynol ac sy'n byw yn siroedd Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.



**"Darganfyddwch eich doniau a'ch dyfeisgarwch eich hun a chyfuno hynny gyda'r adnoddau sydd ar gael i chi."**

Mae'r cyrsiau hyn wedi eu hachredu gan Agored Cymru yn unol â'r Fframwaith Credyd a Chymwysterau.

Mae Agored Cymru yn cwrdd ag anghenion myfyrwyr Cymru ac mae eu cymwysterau'n ymateb yn uniongyrchol i agenda Addysg Cymru.

## Sut i gadw lle?



Tel (01685) 353 944



www.matvmind.org.uk



training@matvmind.org.uk

**ADDYSG OEDOLION**
17-20 Pen y Dre
Y Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9DY

**01685 724910**

**www.merthyr.gov.uk**

Mynediad i'r anabl

**CANOLFAN DDYSGU'R FRO**
17-20 Pen y Dre
Y Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9DY

**01685 727099**

Mynediad i'r anabl
Cyrsiau hefyd yn T-Tec

**COLEG MERTHYR TUDFUL**
Ynysfach
Merthyr Tudful
CF48 1AR

**01685 726000**

**www.merthyr.ac.uk**

Mynediad i'r anabl

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru**
Y Ganolfan Arloesi
Glyn Ebwy
NP23 8XY

**01495 369869**

www.weacymru.org.uk

Mynediad i'r anabl

**TAI GWYDR CYFARTHFA**
Parc Cyfarthfa
Merthyr Tudful
CF47 8RE

**01685 722340**

Mynediad i'r anabl

**ADEILAD CYMUNEDOL Y 3G**
15 Chesnut Way
Y Gurnos
Merthyr Tudful
CF47 9SB

**01685 350888**

www.3gs.org.uk

Mynediad i'r anabl

**GRŴP SEFYDLIAD GELLIDEG / CLWSTWR CANOLOG CYMUNEDAU'N GYNTAF**
Fflat 2, Ty'r Wins Fawr,
Ffordd Lansbury,
Merthyr Tudful
CF48 1HA

**01685 383929**

www.gellideg.net

Mynediad i'r anabl

**CYMRAEG I OEDOLION**
Canolfan Soar
Merthyr Tudful
CF47 8UB

**01685 722176**

www.glam.ac.uk/welsh

Mynediad i'r anabl

**GWEITHREDU GWIR-FODDOL MERTHYR CYMUNEDAU'N GYNTAF – CLWSTWR Y DE**
Swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, Tram Road – y tu ôl i Wesley Palce,
Ynysywen
CF47 9DY

**01443 690178**

Mynediad i'r anabl

**MIND MERTHYR A'R CYMOEDD**
Y Ganolfan Gyngor a Gwybodaeth
88 Y Stryd Fawr, Pontmorlais
Merthyr Tudful
CF47 8UH
www.matvmind.org.uk

**01685 353944/353991**

Mynediad i'r anabl

**CRONFA TREFTADAETH Y LOTERI**
Parc Cyfarthfa
Merthyr Tudful

**01685 725365**

Mynediad i'r anabl